This document is also available in English.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Cyngor |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | 26 Chwefror 2026 |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | Y Cynghorydd Dilwyn Roberts<br>Aelod Cabinet Diwylliant, Llywodraethu a TG |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Matt Georgiou<br>Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Sian Williams (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd)<br>Leanne Davies (Swyddog Gwasanaethau Etholiadol) |
| **TESTUN:** | Adolygiadau Cymunedau dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 – ADRODDIAD TERFYNOL |
| **ADRODDIAD EITHRIEDIG:** | Amherthnasol |
| **RHANBARTH ETHOLIADOL:** | Pob un |

## 1. CRYNODEB A'R PWYNTIAU ALLWEDDOL

1.1 Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Cyngor ar 22 Mai 2025, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddyletswydd statudol i gynnal Adolygiadau Cymunedau dan Adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("y Ddeddf"). Yn y cyfarfod hwnnw, cymeradwyodd y Cyngor y Cylch Gorchwyl a'r amserlen i gynnal yr adolygiadau uchod.

1.2 Yn dilyn hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad saith wythnos o hyd gyda budd-ddeiliaid, ac ar ôl hwnnw, cyflwynwyd Adroddiad Cynigion Drafft i'r Cyngor ar 23 Hydref 2025, a gafodd ei gymeradwyo. Roedd hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r amserlen i gyflwyno argymhellion terfynol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) a bod modd eu gweithredu ar gyfer yr etholiadau Llywodraeth Leol a oedd wedi'u trefnu at fis Mai 2027.

1.3 Cynhaliwyd ail ymgynghoriad am gyfnod o saith wythnos ar y cynigion a gymeradwywyd. Mae'r argymhellion terfynol sy'n deillio o hynny wedi'u nodi yn yr adroddiad sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

1.4 Ni chyflwynwyd unrhyw gynigion nac argymhellion eraill yn ystod ail gam yr ymgynghoriad.

1.5 Gofynnir i'r Cyngor eto ystyried y sylwadau a ddaeth i law a'r newidiadau arfaethedig i drefniant 1 ardal gymunedol a 3 ward er mwyn sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol, gan sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar draws ardal y prif gyngor.

1.6 O’u cymeradwyo, bydd y cynigion hyn yn llunio argymhellion terfynol y Cyngor ar drefniant y cymunedau o fewn ardal y prif gyngor. Bydd yr adroddiad terfynol wedyn yn cael ei gyflwyno i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) i gytuno arno, er mwyn gallu gweithredu’r newidiadau cyn yr etholiadau Llywodraeth Leol sydd wedi’u trefnu at fis Mai 2027.

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo’r argymhellion canlynol sydd wedi’u cynnwys yn Adroddiad yr Argymhellion Terfynol sydd i gael ei gyflwyno i CDFfC:

(a) Bod y ffin rhwng wardiau presennol Mostyn a Thudno yn cael ei symud o'i lleoliad presennol i ymyl deheuol Gorsaf Reilffordd Llandudno ac ymyl deheuol y rheilffordd rhwng yr Orsaf a Phont Maesdu (fel y manylir ym mharagraff 5.28 yn yr adroddiad sydd ynghlwm).

(b) Bod y ffin rhwng wardiau Craig y Don a Thudno yn cael ei symud i ddilyn Clarence Crescent yn hytrach na Clarence Drive (fel y manylir ym mharagraff 5.30 yn yr adroddiad sydd ynghlwm).

(c) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'n ffurfiol yr ymatebion i'r ymgynghoriad y cynigiwyd argymhelliad 'Dim Newid' ar eu cyfer.

## 3. MANYLION YR ADRODDIAD

3.1 Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2025, awdurdododd y Cyngor i’r adolygiadau cymunedol uchod gael eu cynnal yn unol â'r Cylch Gorchwyl a gymeradwywyd.

3.2 Yn rhan o gam cyntaf yr adolygiad, cafwyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus a barodd 7 wythnos (gan ddod i ben ar 11 Gorffennaf 2025). Yn ystod y cam cyntaf hwn, gwahoddwyd budd-ddeiliaid a'r cyhoedd i wneud cyflwyniadau ynghylch ffiniau a threfniadau etholiadol cynghorau tref a chymuned. Anfonwyd holiadur at y cynghorau hynny i annog a strwythuro eu hymatebion.

3.3 Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Cyngor sylwadau gan; 4 Cyngor Tref a Chymuned, 3 Chynghorydd Sir ac 1 Aelod o'r Senedd.

3.4 Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, cafodd y Cyngor sylwadau gan; 1 Cynghorydd Sir ac 1 Cyngor Cymuned. Roedd y ddau ymateb hynny'n cefnogi'r cynigion drafft cychwynnol.

3.5 Fel mae'r Cylch Gorchwyl yn ei ddweud, wrth lunio cynigion ar drefniadau cymunedol, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried nifer o faterion sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Nid yw bob amser yn bosib' datrys y rhain i gyd. Weithiau mae materion sy'n gwrthdaro. Mae'r cynigion yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol, gan sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

3.6 Casglodd staff y Swyddog Cofrestru Etholiadol wybodaeth am bob cyngor unigol hefyd. Yn dilyn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae cyfres o argymhellion ar gyfer pob cyngor o ran ffiniau a threfniadau etholiadol wedi'u manylu yn yr adroddiad (gan gynnwys lle na argymhellir unrhyw newid). Mae'r argymhellion hyn wedi'u seilio ar y wybodaeth a gasglwyd gan staff y Swyddog Cofrestru Etholiadol, unrhyw gyflwyniadau a gafwyd, a'r Cylch Gorchwyl a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

3.7 Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) yw'r corff gweithredu ar gyfer unrhyw adolygiad a gynhelir gan y prif gyngor.

3.8 Cyflwynir unrhyw argymhellion terfynol, gan gynnwys newidiadau i ffiniau wardiau, i CDFfC. Yna, bydd CDFfC yn cynnal cyfnod o 6 wythnos lle gall pobl gyflwyno sylwadau iddynt hwy ar yr argymhellion terfynol. Ar ddiwedd y cyfnod o 6 wythnos, bydd CDFfC yn ystyried yr argymhellion hynny.

3.9 Ar ôl cael ein hadroddiad argymhellion terfynol ni, bydd gan CDFfC ddewis:

- gall weithredu argymhellion y prif gyngor heb addasiadau;
- gall weithredu'r argymhellion gydag addasiadau y cytunir arnynt gyda'r prif gyngor;
- gall ddewis cynnal ei adolygiad ei hun; neu
- gall ddewis peidio â gweithredu o gwbl.

3.10 Bydd yr Aelodau'n sylwi y bydd y newidiadau arfaethedig i ffiniau wardiau cymunedol yn cael effaith ganlyniadol ar ffiniau wardiau'r Fwrdeistref Sirol. Wrth gyflwyno ein hadroddiad argymhellion terfynol i'r CDFfC, byddwn yn cynnwys y newidiadau canlyniadol hynny ac yn eu hargymell fel newidiadau canlyniadol.

3.11 Mae Adran 38(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn nodi, os bydd gorchymyn gweithredu CDFfC yn gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol ardal prif gyngor, rhaid i'r Comisiwn gael caniatâd Gweinidogion Cymru yn gyntaf. Os bydd y Comisiwn, ar ôl ystyried pa gamau i'w cymryd fel awdurdod gweithredu ar gyfer adolygiad ffiniau adran 25, yn bwriadu rhoi newid ar waith i drefniadau etholiadol y prif gyngor sy'n ganlyniad i newidiadau i ffiniau cymunedol, bydd y Comisiwn yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

3.12 Gan hynny, bydd CDFfC yn ymgynghori â Gweinidogion LlC a dylent allu gwneud y newidiadau canlyniadol hynny. Cyn belled â bod yr argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i CDFfC erbyn mis Mawrth 2026, mae CDFfC wedi nodi y dylai hynny fod yn ddigon o amser i wneud y newidiadau mewn pryd ar gyfer etholiadau lleol 2027.

## 4. DEWISIADAU

4.1 Cymeradwyo'r cynigion sy'n effeithio ar 3 ward gymunedol yn yr Adroddiad Argymhellion Terfynol.

## 5. YMGYSYLLTU / YMGYNGHORI

5.1 Ymgysylltwyd â'r partneriaid / budd-ddeiliaid canlynol:

Trigolion Sir Conwy
Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorau Tref a Chymuned yn Sir Conwy
Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC)
Tîm Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi Llywodraeth Cymru
Janet Finch-Saunders, AS
Mark Isherwood, AS
Darren Millar, AS
Samuel Rowlands, AS
Carolyn Thomas, AS
Ysgrifennydd Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd Cymru
Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Anabledd Cymru
Grŵp Mynediad Gwirfoddol Conwy

5.2 Ymgynghorwyd ag Aelod(au) Cabinet (rhowch deitl y deiliad/deiliaid portffolio perthnasol), a wnaeth y sylwadau canlynol:

## 6.0 GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Mae'r Adolygiad Cymunedol yn statudol ofynnol, felly mae'n rhaid ei wneud. Mae Swyddog Etholiadol Conwy yn arwain proses yr adolygiad cymunedau a gan hynny, bydd y gost yn cael ei hariannu o gyllideb y gwasanaeth gan ddefnyddio adnoddau staff presennol.

6.2 Gallai costau ychwanegol gynnwys costau argraffu, postio a chyfieithu.

**7. CANLYNIADAU'R CYNLLUN CORFFORAETHOL**

7.1 Mae blaenoriaethau'r Cyngor yn cynnwys darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n hygyrch i bawb. Mae Cynghorau Tref a Chymuned a ffiniau wardiau priodol yn hanfodol bwysig er mwyn i'r etholwyr allu cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r flaenoriaeth bod "Pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu."

**8. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (yn cynnwys unrhyw faterion Trechu Tlodi)**

8.1 Hirdymor – sicrhau bod etholwyr yn gallu cael mynediad priodol at orsaf bleidleisio sy'n lleol iddynt, a bod gan Gynghorau Tref a Chymuned ddigon o Gynghorwyr i redeg yn effeithiol a chefnogi eu hardal leol.

8.2 Atal – ceisio sicrhau bod y broses bleidleisio yn un rwydd i etholwyr pan gynhelir etholiadau. Bydd unrhyw newidiadau i ffiniau wardiau neu niferoedd aelodau'r Cyngor yn arwain at gynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.

8.3 Integreiddio – cynnwys cymunedau a phobl berthnasol er mwyn hwyluso ymgysylltiad etholwyr yn y broses etholiadol.

8.4 Cydweithio – gweithio gyda chymunedau ac unigolion i sicrhau proses etholiadol effeithlon.

8.5 Cyfranogi – sicrhau bod yr etholwyr wedi'u lleoli o fewn y ward fwyaf perthnasol a'u bod yn cael eu cefnogi gan Gyngor Tref neu Gymuned effeithiol.

**9. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB A'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

9.1 Gwnaed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn, ac mae wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad hwn.

**10. POLISÏAU A GWEITHDREFNAU**

Amherthnasol

## 11. GOBLYGIADAU O RAN RISG

11.1 Gallai peidio ag ystyried y problemau posib’ i'r cynigion ffiniol, a gweithredu atebion angenrheidiol, fynd yn groes i’r Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer yr adolygiad. Gallai hefyd fethu â sicrhau bod cymunedau'n cadw eu hunaniaethau lleol. Gallai peidio â chymeradwyo'r argymhellion arwain at lywodraethu lleol llai effeithiol na'r hyn a gyflawnir ar hyn o bryd.

## 12. SYLWADAU’R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

Amherthnasol

## 13. SYLWADAU’R GRŴP ADOLYGU ADRODDIADAU (GAA)

Amherthnasol

**Atodiadau:**

1 Cylch Gorchwyl
2 Manylion y wardiau cymunedol – ystadegau’r etholwyr
3 Adroddiad Cynigion Drafft
4 Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb
5 Adroddiad terfynol ar adolygiad Ffiniau Cymunedol